

Comisiynydd Plant Cymru



Datgeliadau Camarfer

Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021

Cwblhawyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion cyfreithiol “Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ynghylch Datgelu Gwybodaeth) 2017”.

Mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno'r gofynion adrodd ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n Bersonau Rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer. Personau rhagnodedig yw pobl a chyrrff y gallwch chi ddatgelu camarfer iddyn nhw yn hytrach na'ch cyflogwr.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn berson rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer mewn perthynas â buddiannau plant, ac mae modd cysylltu â'r Comisiynydd ynghylch materion yn ymwneud â hawliau, lles a materion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw, yng Nghymru.

Mae'r adroddiad canlynol yn darparu gwybodaeth ynghylch Datgelu Camarfer fel yr amlinellwyd yn strategaeth yr Adran Busnes, Ynni a Diwydiant “Datgelu Camarfer – Canllawiau i Bersonau Rhagnodedig 2017”.

1. Ystadegau

Nifer yr achosion cymwys o ddatgelu gwybodaeth a wnaed gan weithwyr yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng 1.4.20 a 31.3.21	1
Nifer y datgeliadau cymwys lle penderfynodd Comisiynydd Plant Cymru gymryd camau pellach	1

2. Crynodeb o'r math o gamau a gymerwyd gan y person rhagnodedig yng nghyswllt y person cymwys mewn perthynas ag achosion cymwys o ddatgelu gwybodaeth.

Derbyniodd ein swyddfa honiad datgelu camarfer di-enw ynghylch cartref preswyl i blant. Anfonwyd yr wybodaeth at Arolygiaeth Gofal Cymru i dderbyn sylw ganddynt, a chafodd ein swyddfa gydnabyddiaeth eu bod wedi derbyn yr wybodaeth.

3. Crynodeb o sut mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu Comisiynydd Plant Cymru i gyflawni ei swyddogaethau a'i amcanion.

Amherthnasol

4. Esboniad ar swyddogaethau, amcanion a phwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (y “Comisiynydd”) yn swydd a sefydlwyd yn unol â Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a oedd yn newid Deddf Safonau Gofal 2000 (“Deddf 2000”). Mae pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn deillio o Ddeddf 2000.

Rhoddir pwerau pellach i'r Comisiynydd yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 (“Rheoliadau 2001”). Yn eu hanfod, mae'r rheoliadau hyn yn ymhelaethu ar y pwerau a'r swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiynydd o dan Ddeddf 2000.

Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles **plant**.

Mae modd rhannu prif bwerau statudol y Comisiynydd o dan ddau bennawd:

- Pwerau i adolygu gweithgareddau rhai cyrff cyhoeddus; a
- Phwerau i gynorthwyo **plant** unigol.

Pwerau i Adolygu

Mae gan y Comisiynydd bŵer i wneud y canlynol:

- adolygu swyddogaethau amrywiol gyrff cyhoeddus neu sut maent yn ymarfer eu swyddogaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru; ac
- adolygu a monitro'r trefniadau sydd ar waith gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau **plant** o ran:
 - delio â chwynion neu sylwadau a gyflwynwyd;
 - sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i **ddatgelu camarfer**;
 - cynrychioli barn a dymuniadau **plant**;
 - rhoi **cyngor a chymorth** i **blant**.

Pwerau i Gynorthwyo

Mewn perthynas â **phlant** unigol, mae gan y Comisiynydd bŵer i wneud y canlynol:

- archwilio achosion unigol o dan rai amgylchiadau; a
- chynorthwyo **plentyn** gyda'r canlynol:
 - cyflwyno cwyn neu sylwadau mewn perthynas â'r gwasanaethau mae'r **plentyn** yn eu derbyn; neu
 - rhai **achosion** (mae cyfyngiadau mewn perthynas ag **achosion cyfreithiol**).